# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL DYDD LLUN, 10 RHAGFYR 2018

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd), Y Cynghorwyr John Brynmor Hughes ac Angela Russell

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 5. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau

trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Eglurwyd bod yr ymgeisydd wedi gwneud cais am drwydded yng Ngorffennaf 2015 lle gwiriwyd a phenderfynwyd ar y cais ar sail asesiad swyddog. Dengys cofnodion yr Uned Drwyddedu na fu i'r cais gael ei gyfeirio at Is Bwyllgor yn unol â hawliau dirprwyedig a chymalau perthnasol Cyfansoddiad y Cyngor. Ategwyd na fu i'r ymgeisydd adnewyddu ei drwydded yn 2016 hyd nes cyflwynwyd cais o'r newydd 8.11.18.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd. Nodwyd bod Mr A wedi cael ei ddyfarnu fel person addas a phriodol gan swyddog yn 2015 ac nad oedd dim wedi newid ers hynny. Nodwyd ei fod wedi bod yn hunan gyflogedig fel gosodwr lloriau ond bod y gwaith erbyn hyn wedi tawelu. Ategwyd bod collfarn gyrru ar drwydded yr ymgeisydd hyd 2020.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, a gyflwynodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd yn ystod y gwrandawiad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau.

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn am drosedd o Anrhefn Treisgar gan Lys y Goron Caernarfon (Gorffennaf 1990) yn groes i'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 lle cafodd orchymyn i weithredu 210 o oriau cymunedol a thalu costau o £320.00. Yn Medi 1991 derbyniodd gollfarnau am gyfres o droseddau gan Lys Ynadon Bangor yn groes i Ddeddf Plismona 1964. Roedd y troseddau yn cynnwys atal yr Heddlu a dwy drosedd nad yw eu manylion wedi eu cynnwys yn llawn ar y cofnod DBS. Er hynny, cafodd ddirwy o £150.00. Yn Medi 1996 derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Bangor am ymosodiad cyffredinol yn groes i adran 39 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 lle cafodd orchymyn i dalu iawndal o £500 a chostau o £50.00.

Ym mis Mehefin 1998 derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon De Môn am drosedd o fethu a darparu prawf ar gyfer ei ddadansoddi mewn perthynas â bod yn gyfrifol am gerbyd modur (hyn yn groes i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988). Cafodd ddirwy o £160, costau o £45 a'i wahardd o yrru am 12 mis. Ym mis Awst 2002 derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Bangor am gyfres o droseddau yn groes i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988. Methodd a darparu prawf ar gyfer ei ddadansoddi mewn perthynas â bod yn gyfrifol am gerbyd modur yn ogystal â methu rhoi prawf anadl. Cafodd ddirwy o £250.00, gorchymyn i dalu costau o £35 a'i

wahardd rhag gyrru am 3 blynedd (wedi ei leihau gan 7.5 mis yn dilyn cwblhau cwrs). Yng Ngorffennaf 2017 derbyniodd dri phwynt am yrru tu hwnt i gyflymder gyrru statudol.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais ac fe nodir ym mharagraff 6.4 y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd gollfarn am un o'r troseddau sydd wedi ei rhestru onid oes cyfnod o 10 mlynedd wedi mynd heibio. Mae'r paragraff yn rhestru ymhlith materion eraill troseddau sydd yn ymwneud ag anrhefn treisgar, a throseddau tebyg. Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae'r paragraff yn rhestru ymhlith materion eraill troseddau sydd yn ymwneud ag ymosodiad cyffredin a rhwystro. Mae paragraff 6.6 yn nodi y bydd cais yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd o fewn y 10 mlynedd diwethaf.

Mae paragraff 11 o'r polisi yn cyfarch troseddau sydd yn ymwneud ag yfed a gyrru sydd yn cynnwys methiant darparu sampl. Mae paragraff 11.2 yn nodi y bydd trwydded yn annhebygol o gael ei chaniatáu os bydd gan yr ymgeisydd fwy nag un gollfarn oni bai bod cyfnod o 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn ddiwethaf.

Mae paragraff 16.1 o bolisi'r Cyngor yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar

Daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad bod y collfarnau oedd yn ymwneud a throseddau o drais i'w mesur o dan baragraff 6.4 a 6.5 o'r polisi. Er hynny, gyda'r collfarnau hyn yn rhai hanesyddol (tu hwnt i ofynion y polisi o 3 blynedd) nid oeddynt yn sail i wrthod y cais.

Ystyriodd yr Is Bwyllgor bod y collfarnau oedd yn ymwneud a methu darparu prawf i'w mesur o dan baragraffau 11.2 a 16.1 gan fod achlysuron o waharddiadau rhag gyrru oedd yn amlygu diffyg parch at les eraill. Er hynny, gyda'r collfarnau hyn yn rhai hanesyddol (tu hwnt i ofynion polisi o 10 mlynedd) nid oeddynt yn sail i wrthod y cais.

Ystyriodd yr Is Bwyllgor bod yr ymgeisydd wedi derbyn trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd yn 2015. Cafodd y cais ei ganiatáu gan Swyddog Trwyddedu, yn hytrach nag Is Bwyllgor ar y sail fod yr

ymgeisydd yn addas a phriodol. Pwysleisiwyd er hynny, er y buasai'r swyddog wedi gwrthod y cais, y byddai'r Is bwyllgor wedi dod i'r un casgliad na ddylai'r troseddau fod yn sail i wrthod y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd ac y byddai'r Uned Drwyddedu yn cysylltu i gadarnhau dogfennau'r drwydded.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.40 y.b. a daeth i ben am 12.10 y.h.

**CADEIRYDD**